

## Ystadegau Allweddol – Tlodi Tanwydd yng Nghaerdydd a Chymru

### Ystadegau tlogdi tanwydd allweddol Caerdydd

#### Marwolaethau ychwanegol y gaeaf

Bu 130 o farwolaethau ychwanegol y gaeaf yn ardal Awdurdod Lleol Cyngor Caerdydd yn 2012/13 yn ôl y Swyddfa Ytsadegau Cenedlaethol.<sup>i</sup>

Yng Nghymru, bu 1,100 o farwolaethau ychwanegol y gaeaf yn 2013/14 a 1,850 yn 2012/13.

#### Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru<sup>ii</sup>

#### Pau Tai

Dangosyddion pau tai ydy:

- Canran y bobl sydd yn byw mewn cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely)
- Canran y boblogaeth sydd yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Mae gan Gaerdydd 79 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) o fewn y 10% uchaf o'r LSOAs gyda'r tai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan Gaerdydd 90 LSOAs o fewn y 15% uchaf o'r LSOAs gyda'r tai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Glan yr Afon 2 ydy'r LSOA gyda'r mwyaf o dai difreintiedig yng Nghymru. Mae Grangetown 9 yn ail a Thre Biwt 1 yn drydydd o'r LSOA gyda'r tai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

#### Pau Iechyd

Dangosyddion pau iechyd ydy:

- Salwch Hir Dymor Cyfyngus
- Cyfraddau Marwolaethau Pob Achos
- Achosion o Ganser
- Genedigaethau Sengl Pwysau Isel

Trowbridge 8 ydy'r seithfed LSOA mwyaf difreintiedig o ran iechyd yng Nghymru.

Mae gan Gaerdydd 13 LSOA o fewn y 10% uchaf o'r LSOAs gyda'r iechyd amddifadus mwyaf yng Nghymru.

### Tlodi Tanwydd yng Nghymru

- Yn 2012, amcangyfrifwyd bod 30% o deuluoedd yng Nghymru (386,000 o deuluoedd) mewn tlogdi tanwydd.<sup>iii</sup>
- Mae 1 o bob 3 teulu yng Nghymru mewn tlogdi tanwydd.
- Y nifer o deuluoedd bregus mewn tlogdi tanwydd ydy 328,000, 33% o'r holl deuluoedd yng Nghymru.
- Y nifer o deuluoedd sydd mewn tlogdi tanwydd mewn tai cymdeithasol ydy 70,000, 31% o gartrefi cymdeithasol.
- Mae gan Gymru yr ail ganran uchaf o deuluoedd mewn tlogdi tanwydd yn y DU.



## **Dyled Tanwydd a thlodi tanwydd**

- Yn 2014, roedd yna 65,583 (4.6%) o gwsmeriaid trydan a 56,301 (5.0%) o gwsmeriaid nwy mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.<sup>iv</sup>
- Yng Nghymru, ar ddiwedd 2014 roedd yna bron i 300,000 o gyfrifon Mesuryddion Rhagdalau (PPM) trydan (21% o'r holl gyfrifon trydan) a bron i 220,000 o gyfrifon nwy PPM (19% o'r holl gyfrifon nwy).
- Roedd yna gynydd o 4% mewn gosod PPM yng Nghymru rhwng 2013 a 2014.
- Datgysylltwyd trydan 3 teulu yng Nghymru am beidio â thalu eu dyledion yn 2014, o'i gymharu ag 8 yn 2013.
- Roedd 11% o gwsmeriaid trydan ac 11% o gwsmeriaid nwy ar y Gofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth (PRS) yng Nghymru yn 2014.
- Mae gan gwsmeriaid domestig yng Nghymru y biliau trydan uchaf yn rhanbarthau Cymru a Lloegr, ar 16.37c y kwh a 16.67c y kwh, o'i gymharu â ffigur DU o 15.58c y kwh.<sup>v</sup>
- Mae bron i 20% o deuluoedd yng Nghymru oddi ar y brif rwydwaith mwy – yn dibynnu ar olew drutach a thrydan i gynhesu eu cartrefi.

## **Biliau tanwydd**

### **Biliau trydan safonol domestig ar gyfartaledd i Dde Cymru a Gogledd Cymru a Glannau Merswy yn seiliedig ar ddefnydd o 3,800kWh/ y flwyddyn<sup>vi</sup>**

- Y credyd safonol trydan ar gyfartaledd i Dde Cymru oedd £648 yn 2014.
- Y credyd safonol trydan ar gyfartaledd i Dde Cymru oedd £648 yn 2014.
- Y bil rhagdalau trydan ar gyfartaledd i Dde Cymru oedd £652 yn 2014.

### **Biliau nwy safonol domestig ar gyfartaledd i Dde Cymru a Gogledd Cymru a Glannau Merswy yn seiliedig ar ddefnydd o 15,000kWh/ y flwyddyn<sup>vii</sup>**

- Y credyd safonol nwy ar gyfartaledd i Dde Cymru oedd £793 yn 2014.
- Y credyd safonol nwy ar gyfartaledd i Dde Cymru oedd £794 yn 2014.
- Y bil rhagdalau nwy ar gyfartaledd i Dde Cymru oedd £786 yn 2014.

## **Cost blynyddol Olew ar gyfer gwresogi cartref a dŵr**

- Y gost blynyddol ar gyfartaledd am wresogi a dŵr poeth gan ddefnyddio olew gwresogi yn y DU ydy £538 pan yn defnyddio tua 13,500 kWh y flwyddyn.<sup>viii</sup>

## **Cost blynyddol LPG ar gyfer gwresogi cartref a dŵr**

- Y gost blynyddol ar gyfartaledd am wresogi a dŵr poeth gan ddefnyddio LPG yn y DU ydy £1,125 pan yn defnyddio tua 13,500 kWh y flwyddyn.<sup>ix</sup>

## **Cartrefi Oer a'r GIC**

- Mae 475 o farwolaethau diangen bob blwyddyn ar draws Cymru yn cael eu priodoli yn uniongyrchol i deuluoedd bregus yn byw mewn cartrefi oer.<sup>x</sup>
- Mae cartrefi oer yn cyfrannu tuag at tua deg y cant o farwolaethau ychwanegol y gaeaf ymysg pobl hŷn bob blwyddyn. Mae mwyafrif y marwolaethau ymysg y rhai 75 oed a throsodd.
- Ar hyn o bryd mae byw mewn cartref oer yn lladdwr mwy na marwolaethau'n gysylltiedig gydag alcohol yng Nghymru. Y llynedd roedd yna 475 o farwolaethau'n gysylltiedig gydag oerni (ffigurau WHO) a 467 o farwolaethau'n gysylltiedig gydag alcohol yng Nghymru (ystadegau Llywodraeth Cymru)<sup>xi</sup>
- Mae'r gost i'r GIC yng Nghymru am drin derbyniadau'n berthynol i oerni ychydig dros £100 miliwn y flwyddyn.<sup>xii</sup>

## **Newid tanwydd a Cyd Cymru**

- Dydy 43% o deuluoedd yng Nghymru erioed wedi newid cyflenwr ynni

### **Cyd Cymru**

- Mae dros 12,000 wedi cofrestru gyda Cyd Cymru mewn 3 rhediad newid ynni hyd yn hyn.<sup>xiii</sup>
- Mae dros 3,500 o deuluoedd wedi newid cyflenwr ynni gyda'r cynllun.
- Yr arbediad ar gyfartaledd fesul teulu wrth newid ydy £225.
- Mae hyn yn gyfanswm o £800,000 o arbedion i deuluoedd yng Nghymru.
- Wrth newid 1 a 2 - o'r teuluoedd a nodwyd fel rhai oedd eisoes mewn tlodi tanwydd, fe wnaeth 12-15% o deuluoedd dderbyn arbedion a fyddai yn eu tynnu allan o dlodi tanwydd.

### **Iechyd**

- Disgwyliad oes ar gyfartaledd gwryw yn byw yng Nghaerdydd ydy 78.2 o'i gymharu â chyfartaledd 78.2 Cymru.<sup>xiv</sup>
- Disgwyliad oes ar gyfartaledd menyw yn byw yng Nghaerdydd ydy 82.9 o'i gymharu â chyfartaledd 82.3 Cymru.
- Yn 2013/14, adroddwyd bod 13% o'r oedolion yng Nghaerdydd yn cael eu trin am salwch anadlol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol Cymreig o 14%.<sup>xv</sup>
- Yn 2013/14, adroddwyd bod 9% o oedolion yng Nghaerdydd yn cael eu trin am gyflwr y galon o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol Cymreig o 9%.

### **Cynllun Nyth – Caerdydd**

Roedd 10% o'r holl deuluoedd yng Nghaerdydd wedi gwneud ymholiadau am gynllun Nyth yn 2012/13.

<b>Cynllun Nyth yng Nghaerdydd<sup>xvi</sup></b>	<b>2012-13</b>	<b>2013-14</b>	<b>2014-15</b>	<b>2015-16 (tan Medi)</b>
<b>Teuluoedd yn gwneud ymholiadau yn y flwyddyn ariannol</b>	1585	2160	932	674
<b>Teuluoedd a gyfeiriwyd at Nwy Prydain ar gyfer WHA yn y flwyddyn ariannol</b>	464	366	201	114
<b>Teuluoedd yn derbyn mesurau yn y flwyddyn ariannol</b>	359	323	296	199

## **Tai**

### **Stoc Tai yng Nghaerdydd**

- Yn 2013/14, roedd 62% o eiddo yng Nghaerdydd yn dai perchen feddiant. Roedd 21% wedi'u rhentu'n breifat, 9% yn berchen i'r awdurdod lleol a 7.4% yn berchen i landlordiaid cymdeithasol.
- Mae 41% o bobl mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn byw mewn tai cymdeithasol.<sup>xvii</sup>
- Mae 28% o'r bobl mewn tlodi yng Nghymru yn byw yn y sector rhent preifat.

### **Safon Ansawdd Tai Cymru – Cymru**

- Ar 31 Mawrth 2014, roedd 67% o anheddau tai cymdeithasol (149,755 o anheddau) yn cydymffurfio gyda'r SATC (yn cynnwys methiannau derbyniol) o'i gymharu â 60% y flwyddyn flaenorol.<sup>xviii</sup>
- 83% o anheddau LCC yn cyflawni cydymffurfiaeth gyda SATC (yn cynnwys methiannau derbyniol) ar 31 Mawrth 2014 o'i gymharu â 44% o anheddau awdurdodau lleol.

## **Incwm teulu**

- Roedd 24.6% o blant yng Nghaerdydd yn 2012 yn byw mewn teuluoedd incwm isel o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 20.8%.<sup>xix</sup>
- Mae gan Gymru y canran uchaf o unigolion sydd yn byw mewn teuluoedd gyda llai na 60% o incwm teulu canolrif cyfoes mewn termau real ar ôl costau tai (24% – yn erbyn 23% yn Lloegr, 22% yng Ngogledd Iwerddon ac 19% yn yr Alban).<sup>xx</sup>

## **Poblogaeth**

- Mae gan Caerdydd y canran isaf o bobl dros 65 oed yng Nghymru. Yn 2014 roedd cyfartaledd o 13.8% o boblogaeth Caerdydd yn 65 oed + o'i gymharu â chyfartaledd o 17.9% yng Nghymru.<sup>xxi</sup>
- Yn 2014, roedd cyfartaledd o 67.8% o boblogaeth Caerdydd rhwng 16 a 64 oed o'i gymharu â'r cyfartaledd o 62% yng Nghymru.

<sup>i</sup> Swyddf Ystadegau Cenedlaethol, marwolaethau ychwanegol y gaeaf 2013.

<http://www.ons.gov.uk/ons/search/index.html?newquery=excess+winter+mortality>

<sup>ii</sup> Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru, 2014 <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014>

<sup>iii</sup> Offer Taflynydd Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/docs/caecd/research/130430-wales-fuel-poverty-projection-tool-2011-12-report-en.pdf>

<sup>iv</sup> Llywodraeth y DU (2015) Biliau Ynni Domestig Blynnyddol Tabl 2.2.2 biliau trydan safonol domestig blynnyddol, ar gyfartaledd i wledydd y DU yn seiliedig ar ddefnydd o 3,800kWh/y flwyddyn <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/annual-domestic-energy-price-statistics>

<sup>v</sup> Monro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru, Sefydliad Joseph Rowntree 2015 <http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/monitoring-poverty-wales-2015-full.pdf>

<sup>vi</sup> Biliau ynni domestig blynnyddol, DECC, 2015 <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/annual-domestic-energy-price-statistics>

<sup>vii</sup> Biliau ynni domestig blynnyddol, DECC, 2015 <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/annual-domestic-energy-price-statistics>

<sup>viii</sup> Cost blynnyddol olew gwresogi, Which <http://www.which.co.uk/energy/creating-an-energy-saving-home/guides/home-heating-systems/oil-central-heating/>

<sup>ix</sup> Cost blynnyddol LPG, Which <http://www.which.co.uk/energy/creating-an-energy-saving-home/guides/home-heating-systems/lpg-central-heating/>

<sup>x</sup> Marwolaethau ychwanegol y gaeaf 2012-13 <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/subnational-health2/excess-winter-mortality-in-england-and-wales/2013-14-provisional--and-2012-13-final-stb.html?format=print>

<sup>xi</sup> Marwolaethau'n berthynol i alcohol, Llywodraeth Cymru 2015 [http://gov.wales/about/programmeformgov/data?code=OU054\(b\)&lang=en](http://gov.wales/about/programmeformgov/data?code=OU054(b)&lang=en)

<sup>xii</sup> Cost i'r GIC yng Nghymru o drin derbyniadau ysbyty'n berthynol i oerni

[http://www.ageuk.org.uk/Documents/EN-GB/Campaigns/The\\_cost\\_of\\_cold\\_2012.pdf?dtrk=true](http://www.ageuk.org.uk/Documents/EN-GB/Campaigns/The_cost_of_cold_2012.pdf?dtrk=true)

<sup>xiii</sup> Cyd Cymru Adroddiad Gwerthuso – Newid 3, EST, Gorffennaf 2015

<sup>xiv</sup> Disgwyliad oES 2012 <http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/health/tabular?viewId=47&qeoid=1&subsetId=>

<sup>xv</sup> Arolwg Iechyd Cymru <http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/health/tabular?viewId=1527&qeoid=1&subsetId=>

<sup>xvi</sup> Nyth, Caerdydd. Ymddiriedolaeth Arbed Ynni 2015

<sup>xvii</sup> Monro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru, Sefydliad Joseph Rowntree 2015 <http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/monitoring-poverty-wales-2015-full.pdf>

<sup>xviii</sup> ystadegau Llywodraeth Cymru – WHQS <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-housing-quality-standard/?lang=en>

<sup>xix</sup> Teuluoedd Incwm Isel, Uned Llywodraeth Leol 2012 <http://www.infobasecymru.net/IAS/dataviews/tabular?viewId=1666&qeoid=1&subsetId=>

<sup>xx</sup> Teuluoedd dan incwm cyfartalog, Llywodraeth Cymru 2015 <http://gov.wales/statistics-and-research/households-below-average-income/?lang=en>

<sup>xxi</sup> Srwythur oedran – Uned Llywodraeth Leol, 2014 <http://www.infobasecymru.net/IAS/profiles/profile?profileId=28&geoType=>